YR EGLWYS YNG NGHYMRU THE CHURCH IN WALES

PLWYF DEWI SANT, CAERDYDD
THE PARISH OF DEWI SANT, CARDIFF

Yr Atgyfodiad – Martinho de Brito

YR WYTHNOS FAWR A'R PASG

HOLY WEEK AND EASTER

2021

EGLWYS DEWI SANT CHURCH
ST ANDREWS CRESCENT, CAERDYDD/CARDIFF, CF10 3DD

Annwyl Gyfeillion,

Mae'n anodd credu bod blwyddyn wedi mynd heibio ers y cyfnod clo cyntaf a phan gaewyd yr eglwysi ar gyfer addoliad cyhoeddus. Roedd yr Wythnos Fawr a'r Pasg y llynedd yn wahanol iawn i'r arfer gyda'n holl wasanaethau ar ffurf podlediadau â phob un ohonom yn addoli ar ei aelwyd ei hun. Blwyddyn yn ddiweddarach, mae'r Pasg yn mynd i fod yn wahanol i'r arfer eto, gyda rhai ohonom yn addoli yn yr eglwys ac eraill yn parhau i addoli ar yr aelwyd. Ond cofiwn, trwy ein ffydd yng nghroes Crist, yr ydym oll yn un, yn rhan o'r un teulu, boed i ni addoli ar yr aelwyd neu yn yr eglwys.

Yr ydym eleni yn darparu ystod o wahanol ddulliau i'ch galluogi i addoli. Cynhelir gwasanaethau yn yr eglwys, gwasanaethau rhithiol dros Zoom ac ar ffurf podlediadau, heb anghofio y deunydd defosiynol sy'n ymddangos yn y bwletin wythnosol.

Y Pasg yw uchel ŵyl yr Eglwys. Cawn ein gwahodd yn flynyddol i gerdded gyda Iesu trwy dywyllwch ac anobaith ei ddioddefaint a'i farwolaeth ar y Groglith, galar a gwacter dydd Sadwrn yr Wythnos Fawr cyn, yn y diwedd, cyrraedd goleuni y wawr newydd a ddaw gyda bore'r trydydd dydd. Mae'n wir i ddweud ein bod drwy'r flwyddyn a aeth heibio wedi byw gyda thywyllwch, anobaith, galar a gwacter canlyniadau didrugaredd COVID19, ond cofiwn fod ein ffydd yn cadw ein gobaith yn fyw oherwydd fel y gwyddom, wedi'r groes daw'r wawr â'i bywyd a'i phosibiliadau newydd.

Rwy'n mawr obeithio y byddwch, ym mha bynnag fodd yr ydych yn ei ddymuno ac yn teimlo'n gyffyrddus ag ef, yn cadw'r Pasg gyda ni eleni, ac yn cael bendith o'r arlwy.

It is hard to believe that a year has passed since the first lockdown and churches were closed for public worship. Last year Holy Week and Easter were very different to the norm with all our services being broadcast as podcasts and everyone worshipping in their own homes. One year on, and again Easter this year is going to be very different with some of us worshipping in church and others of us continuing to worship at home. Remember, through our faith in Christ's cross, we are all one and a part of the same family, whether we worship at home or in church.

This year we are providing a number of different means to allow you to worship. There will be services in church, virtual services over Zoom and the podcasts without forgetting the devotional material that appears on the weekly bulletin.

Easter is the great feast of the Church. It invites us every year to walk with Jesus through the darkness and hopelessness of his suffering and death on Good Friday, the grief and emptiness of Holy Saturday before reaching the light of the new dawn on the third day. It is true to say that during this past year we have lived with the darkness, hopelessness, grief and emptiness resulting from Covid19, but our faith keeps hope alive within us, for we know, that after the cross comes the dawn that brings with it new life and new possibilities.

I hope that you will join us this Easter by whichever means you are most comfortable with.

Gyda phob bendith dros yr Ŵyl sanctaidd hon,

Dyfrig.

Podlediadau a Gwasanaethau yn yr Eglwys
dros yr Wythnos Fawr a'r Pasg

Dydd Sul y Blodau 28 Mawrth

9.00am – Y Foreol Weddi a Phregeth yn yr Eglwys
Podlediad o'r Gwasanaeth Boreol
6.00pm - Podlediad o'r Hwyrol Weddi a Phregeth

Nos Fercher yr Wythnos Fawr 31 Mawrth

8.00pm – Cwmplin a Myfyrdod dros Zoom
Ymunwch â'r gwasanaeth:
https://us02web.zoom.us/j/81108482694?pwd=aW5DRENhWkNjSXoweFFndHQ1aFgvZz09
Rhif Adnabod y Cyfarfod: 811 0848 2694
Cyfrinair: 951568

Nos Iau Cablyd 1 Ebrill

7.30pm – Y Cymun Bendigaid a Diosg yr Allor yn yr eglwys
Podlediad ar gyfer Nos Iau Cablyd

Dydd Gwener y Groglith 2 Ebrill

2.00pm – Gwasanaeth y Groglith Cyngor Eglwysi Cymraeg Caerdydd dros Zoom
Pregethwr: Y Parchedig Ddr Alun Tudur, Ebeneser Caerdydd
Ymunwch â'r gwasanaeth Zoom:
https://us02web.zoom.us/j/88123493781?pwd=SzlpZzFwVTdFY2djd0FILzhUSjJrdz09
Rhif Adnabod y Cyfarfod: 881 2349 3781
Cyfrinair: 989461

Dydd Sul y Pasg 4 Ebrill

8.00am – Y Cymun Bendigaid yn yr Eglwys
Podlediad o'r gwasanaeth boreol
10.30am – Y Cymun Bendigaid yn yr Eglwys
6.00pm – Y Cymun Bendigaid yn yr Eglwys
Podlediad o'r Hwyrol Weddi a Phregeth

(Noder: Bydd y tri gwasanaeth ar Sul y Pasg yn yr Eglwys yr un fath)

Os ydych yn bwriadu dod i un neu fwy o'r gwasanaethau uchod yn yr eglwys a fyddech chi garediced ag anfon neges at Marian Fairclough: faircloughmarian@gmail.com neu ei ffonio: 029 2088 5151 cyn 4.00pm y diwrnod blaenorol i sicrhau bod sedd ar gael i chi.

Bydd y podlediadau hyn yn cael eu cyhoeddi ar sianel Youtube Eglwys Dewi Sant a bydd linc yn cael ei anfon i'ch cyfrif e-bost cyn gynted ag y bydd y podlediadau wedi'u cyhoeddi.

Os nad os gennych fynediad i'r we, gaf i eich annog chi i ddilyn y darlleniadau ar gyfer yr Wythnos Fawr sy'n ymddangos yn y Llyfr Gweddi Coch (1984) o Sul y Blodau (tudalen 91) hyd at Sul y Pasg (tudalen 121), ac i neilltuo cyfnod bob dydd yn ystod yr wythnos hon i weddi a myfyrdod ar air Duw.

If you intend on coming to one or more of these above services in church would you please contact Marian Fairclough: faircloughmarian@gmail.com or telephone: 029 2088 5151 before 4.00pm the day before to ensure there is a seat for you.

These podcasts will be published on Eglwys Dewi Sant's Youtube channel and a link will be sent to your email address as soon as the podcast is published.

If you do not have access to the internet, can I encourage you to follow the readings for Holy Week in the Red Prayer book (1984), that begins with Palm Sunday (page 91) through to Easter Sunday (page 121), and to make time each day during this week for prayer and quiet contemplation on God's word.